43. AMSERU PERFFAITH
(Eliseus a'r wraig o Sunem)

Ar gyrion Samaria yr oedd dau deithiwr – mam a'i mab – yn eistedd o dan gysgod coeden gan rannu pryd o fwyd syml. Roedd dillad y wraig o wneuthuriad da ond roedd ôl gwisgo arnynt. Bu hi'n gyfoethog unwaith ond nawr roedd bywyd yn galetach.

'Fe fyddwn ni adref cyn bo hir, yn byddwn, Mam?' meddai'r bachgen yn eiddgar.

'Mae'n rhaid i ni weld y brenin i ddechrau.' Gydag ochenaid casglodd y wraig weddillion y bara at ei gilydd. 'Pan adawson ni Sunem fe roddwyd ein heiddo yn ei ofal. Does dim sicrwydd y cawn ni'r cyfan yn ôl.'

'Beth, 'dech chi'n meddwl na chawn ni'n tir a'n cartref yn ôl?' Roedd y bachgen wedi cael sioc. 'Ond dyw hynna ddim yn deg. Nid ni oedd ar fai – roedd yn rhaid i ni adael y wlad oherwydd y newyn.'

'Ti'n iawn,' cytunodd y fam. 'Ac ar ben hynny, fe ddywedodd y proffwyd Eliseus wrthym ni am adael.'

'Ddywedodd o beth fyddai'n digwydd pan fydden ni'n dychwelyd?'

'Naddo.' Ysgydwodd ei fam ei phen yn flinedig ond roedd golwg

dawel ar ei hwyneb. Yr oedd hi wedi ymdopi â llawer o anawsterau dros y saith mlynedd diwethaf wrth fyw mewn gwlad ddieithr a dioddef prinder arian. Bu'n galed iawn arni pan gollodd ei gŵr. Eto, roedd hi'n sicr eu bod wedi gwneud y dewis cywir wrth adael Sunem. A nawr roedd hi yr un mor bendant mai dychwelyd oedd y peth iawn i'w wneud. 'Paid â phoeni!' Gafaelodd am ysgwydd ei mab. 'Mae Duw wrth y llyw. Bydd ef yn sicr o wybod beth i'w wneud.'

Ond haws dweud na gwneud.

'Rwyt ti'n dweud fod Duw wrth y llyw, ond sut *wyddost* ti hynny?' Gwgodd y bachgen wrth iddynt gychwyn ar eu taith ar hyd y ffordd lychlyd.

'O brofiad. Rwyf wedi gweld Duw yn gwneud llawer o ryfeddodau.'

'Fel be?'

'Wel, rwyt ti'n cofio'r adeg pan fyddai Eliseus yn aros yn ein cartref.'

Amneidiodd y llanc ei ben. 'Fe wnest ti neilltuo 'stafell yn arbennig ar ei gyfer.'

'Digon gwir. Un diwrnod pan oedd e'n aros gyda ni, proffwydodd y byddai dy dad a finnau'n cael mab. Roedd yn swnio'n anhygoel! Roedden ni wedi bod yn briod am flynyddoedd heb gael plant o gwbl. Ond yn wir i ti, rhyw flwyddyn yn ddiweddarach, daethost ti i'r byd.'

''Dech chi'n dweud fod Duw yn gwybod amdanaf hyd yn oed cyn i mi gael fy ngeni?' gofynnodd y bachgen a'i lygaid yn llawn rhyfeddod.

'Ti oedd anrheg annisgwyl Duw i ni,' aeth y wraig yn ei blaen. 'Y rhodd fwyaf gwerthfawr i ni ei derbyn erioed. Ac yna, un bore, roeddet yn sâl ofnadwy. O fewn ychydig oriau roeddet wedi peidio ag anadlu . . .'

'Beth, 'dech chi'n ceisio dweud y bu bron i mi farw?'

'Fe wnest ti farw.'

'Ond sut ydw i yma nawr felly?'

'Rwyt ti yma oherwydd fod gan Dduw awdurdod dros fywyd a marwolaeth.' Cymerodd y wraig saib am ennyd i edrych ar y bryniau

o'u cwmpas. 'Roeddwn i mor sicr nad oedd yr hyn a ddigwyddodd yn rhan o gynllun Duw ar dy gyfer – yn enwedig o gofio'r modd yr oedd Duw wedi dy roi i ni. Felly euthum â ti i fyny i ystafell Eliseus a dy roi i orwedd ar ei wely. Heb hyd yn oed dorri'r newydd drwg i dy dad penderfynais farchogaeth mor gyflym ag y gallwn i Fynydd Carmel – lle roedd Eliseus yn aros. Pan gyrhaeddais, dyma Eliseus yn rhoi ei ffon broffwydo i'w was Gehasi a'i anfon o'n blaenau i weld a fyddai dal y ffon uwch dy gorff yn dod â thi'n ôl yn fyw.'

'Wnaeth hynny weithio?'

'Na. Pan gyrhaeddon ni'r tŷ dywedodd Gehasi wrthym nad oedd dim wedi newid. Ond nid oedd Eliseus am ildio. Gwnaeth i mi aros y tu allan i'r ystafell wely tra aeth ef i mewn i weddïo. Wedyn galwodd ar Gehasi ac yna galwodd Gehasi arnaf finnau. Doedd gen i ddim syniad beth fyddai'n fy nisgwyl yr ochr arall i'r drws. Ond dyna lle roeddet ti, yn iach ac yn hapus, yn eistedd ar lin y proffwyd.'

Wedi clywed hyn teimlai'r bachgen yn hapusach. Fodd bynnag, pan ddaethant o fewn cyrraedd y palas brenhinol, peidiodd y bachgen â chwibanu. Un peth oedd sgwrsio am y gorffennol. Y cwestiwn mawr oedd: A fedrai ef ymddiried yn Nuw am y dyfodol?

Yn y cyfamser, y tu mewn i'r palas, roedd y brenin Joram wrthi'n sgwrsio â Gehasi. Roedd y brenin yn awyddus i ganfod cymaint ag y gallai am y pwerau a feddai Eliseus. Wrthi'n dweud wrtho am un o wyrthiau mwyaf cofiadwy ei feistr – yr un lle daeth â mab y wraig o Sunem o farw'n fyw – oedd Gehasi pan agorodd drws yng nghefn y neuadd.

'Mae yna wraig yma i weld y brenin.' Dyma swyddog yn hebrwng ein teithwyr i mewn.

Yn betrusgar, aethant yn eu blaenau tuag at yr orsedd. Dechreuodd y wraig egluro ei sefyllfa, ond ni chymerodd y brenin Joram unrhyw sylw ohoni. Roedd pobl wastad yn ei boenydio am rywbeth neu'i gilydd. Hyd yn oed pan fyddai mewn hwyl dda, dim ond hanner gwrando a wnâi. Ond yna, sylwodd ar yr olwg syn ar wyneb Gehasi. Roedd y gwas yn rhythu ar yr ymwelwyr â'i geg yn llydan agored. 'Ond, dyma'r wraig y bûm yn adrodd ei hanes wrthyt ddau funud yn ôl,' llefodd. 'A dyma'r bachgen a

ddaeth o farw i fyw.'

'Anhygoel!' Yn sydyn, roedd yr ymwelwyr am gael sylw llwyr y brenin. Dyma ddigwyddiad rhyfeddol. 'Dowch â rhywbeth iddynt i'w fwyta,' gorchmynnodd. Yna, wrth i'r wraig sipian ei gwin ac wrth i'r bachgen lowcio'r ffigys, holodd ragor arnynt ynglŷn â'r hyn a glywsai gan Gehasi.

'Ydi o'n wir fod Eliseus wedi atgyfodi dy fab?'

'O ydi, eich mawrhydi, mae'n hollol wir,' meddai'r wraig yn eiddgar. 'Fel hyn roedd hi . . .'

Erbyn iddi gwblhau ei stori roedd y brenin yn sicr o ddau beth. Un – roedd gan Eliseus bwerau mwy eithriadol nag yr oedd wedi ei dybio. Ac yn ail – roedd y wraig hon a'i mab yn amlwg yn gyfeillion da iddo, felly gwell iddo eu trin yn ofalus.

'Nawr, am ba reswm y daethoch chi yma?' holodd.

'Ynglŷn â'n heiddo ni yn Sunem,' mentrodd y wraig. 'Fe wnaethoch chi ei gymryd oddi arnom ac yn awr fe hoffem ei gael yn ôl.'

'Mater syml!' Trodd y brenin at y swyddog. 'Gwna'n siŵr fod y wraig hon yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus iddi yn ei ôl. A thra dy fod di wrthi, sicrha ei bod yn derbyn yr arian am yr holl gnydau a gynhyrchwyd ar ei thir dros y saith mlynedd diwethaf.'

Roedd y swyddog yn geg-agored. Welodd o erioed y brenin mor hael o'r blaen. Roedd yn dal mewn sioc wrth i'r teithwyr llawen ymbaratoi i adael. 'Ti'n gwybod be, dwi'n amau fod Arglwydd dy feistr â rhyw ran yn hyn i gyd,' dywedodd wrth Gehasi.

'Dyna'n union roeddwn innau'n feddwl,' gwenodd Gehasi.

HYD: 6–7 munud

NEGES: Mae adnabod Duw yn gymorth i ni goncro ofn.

DARLLEN: Seiliwyd y stori hon ar 2 Brenhinoedd 4: 8–37 a 2 Brenhinoedd 8: 1–6